

**** SAESNEG ISOD | ENGLISH BELOW ****

Datganiad Newyddion

DAN EMBARGO TAN 00:01 09 HYDREF 2017

Y Comisiynydd Plant yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid ei chynnig gofal plant

Dylai pob plentyn tair a phedair oed yng Nghymru gael yr un cyfle i dderbyn gofal plant o ansawdd uchel, beth bynnag eu cefndir, yn ôl yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, sy'n cyhoeddi ei Hadroddiad Blynyddol heddiw (09 Hydref 2017).

Mae cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru o 30 awr o ofal plant am ddim am 48 wythnos y flwyddyn, ond ar gael i rieni sy'n gweithio, ond mae'r Comisiynydd yn poeni fod plant a'u rhieni sydd ddim yn gweithio yn cwmpo tu ôl eu cyfoedion hyd yn oed yn fwy os ydyn nhw'n colli allan ar y ddarpariaeth yma. Yn ôl y Millennium Cohort Study, mae plant o deuluoedd tlotaf yn barod tua 10 mis tu ôl i blant sy'n dod o gefndiroedd cyfoethocach o ran datblygiad pan yn cyrraedd tair oed. Mae'r Comisiynydd yn credu drwy sicrhau fod pob plentyn yn derbyn yr un cynnig o ofal plant o ansawdd uchel yn lleihau'r bwlch o ran parodrwydd i fynd i'r ysgol a sicrhau fod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial.

Yma, mae'r Athro Holland yn esbonio mwy:

“Rwy'n sylweddoli mod i'n gofyn am rywbeth mentrus yma gan y Llywodraeth, gan fy mod i'n eithriadol ymwybodol ein bod ni'n byw mewn oes pan fo pob ceiniog yn cyfri. Ond rwy'n credu dylai'r Llywodraeth ail-feddwl ei chynnig gofal plant ac ystyried yr effeithiau tymor-hir y polisi yma ar y plant sydd angen y gefnogaeth fwyaf. Mae yna dystiolaeth glir bod buddsoddi mewn addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i gyfleoedd bywyd rheiny sy'n dod o gefndiroedd tlawd ac yn hyrwyddo symudedd cymdeithasol. Mae e hefyd yn arbed arian yn yr hir-dymor gan fod y rheiny sy'n derbyn cymorth yn gynnar yn mynd ymlaen i gyfrannu mwy i gymdeithas ac yn dibynnu ar lai o wasanaethau.

“Wrth gwrs, rwy'n croesawu'n bendant y bwriad i ehangu gofal plant am ddim, gan y bydd hynny'n cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio yn sylweddol gyda chostau gofal plant, gan gydnabod bod gan fwyaf y plant sy'n byw mewn tlodi rhieni sy'n gweithio. Fodd bynnag, rydw i am osgoi sefyllfa lle mae plant rhieni sydd ddim yn gweithio yn colli allan, ac yn methu derbyn eu hawl i gyflawni hyd eithaf eu potensial.”

Mae'r adroddiad yn cydnabod y camau mawr mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cymryd mewn polisiau yn ymwneud â darpariaeth i bobl Ifanc sy'n gadael gofal, yn sgil adroddiad y Comisiynydd 'Breuddwydion Cudd', a gyhoeddwyd ar 1af o Fawrth 2017. Mae e hefyd yn manylu ar feysydd allweddol eraill ar gyfer gwelliant:

Addysgu gartref

Mae'r Comisiynydd yn galw unwaith eto am sefydlu cofrestr ar gyfer plant y dewisir eu haddysgu gartref, a bod y plant hynny'n cael eu gweld gan weithiwr proffesiynol yn achlysurol. Mae hyn yn dilyn pryderon nad yw nifer fach o blant o bosib yn derbyn yr addysg a'r gofal ddylen nhw yn y cartref.

Mabwysiadu

Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi codi pryderon gyda'r Comisiynydd oherwydd eu bod yn methu cadw mewn cysylltiad â'u brodyr a'u chwiorydd ar ôl mabwysiad. Mae pobl ifanc yn sôn am

deimlo eu bod yn cael eu cosbi os nad yw cyswllt yn cael ei hybu. Mae'r Athro Holland yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod hawliau siblingiaid i gadw mewn cysylltiad yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio gofal mabwysiadu.

Mynediad plant Byddar a'u teuluoedd i Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

Yn dilyn cyfarfodydd gyda rhieni sydd ddim yn Fyddar sydd wedi sôn am fethu cyfathrebu yn llawn â'u plant Byddar, a phlant Byddar eraill a'u teuluoedd sydd wedi mynegi pryder ynghylch diffyg darpariaeth a chefnogaeth iddyn nhw, mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi ar waith, gan gynnwys cyfleoedd dysgu hygyrch a fforddiadwy ar gyfer BSL.

Uchafbwyntiau gwaith y Comisiynydd eleni

- Fe wnaethon ni ymgynghori â mwy na 2000 o blant a bron 300 o weithwyr proffesiynol ynghylch eu teimladau a'u profiadau o fwlio yng Nghymru.
- Fe wnaethon ni lansio adroddiad 'Breuddwydion Cudd' ynghylch ymrwymadau cymdeithas i ymadawyr gofal Cymru. Arweiniodd hynny at fuddsoddiad o £1m gan Lywodraeth Cymru tuag at fwrariaeth ymadawyr gofal.
- Fe wnaethon ni greu adnodd i hybu a dathlu perthnasoedd rhwng y cenedlaethau gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac edrychwyd arno 9000 o weithiau o fewn y misoedd cyntaf ar Facebook.
- Fe wnaethon ni ymgysylltu â 10,550 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi 'Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru'. Mae sefydliadau sy'n cynnwys Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru ac Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gynorthwyo 528 o achosion trwy wasanaethau cyngor a chymorth annibynnol y Comisiynydd, gan fynd i'r afael â materion sy'n amrywio o anghenion addysgol arbennig i gau canolfan chwaraeon.

DIWEDD

Mae'r Athro Sally Holland ar gael i greu recordiadau ymlaen llaw. Bydd hi hefyd ar gael ar gyfer cyfweiliadau byw ar 9 Hydref neu recordiadau ymlaen llaw mewn digwyddiad rydyn ni'n ei gynnal ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.

I drefnu cyfweiliad wyneb yn wyneb neu gyfweiliad dros y ffôn, rhowch alwad i Lewis Lloyd ar 01792 765600 neu Sara Jermin ar 07794 123132. I dderbyn copi dan embargo o'r Adroddiad Blynyddol, anfonwch e-bost at Lewis: lewis.lloyd@complantcymru.org.uk

News Release

EMBARGOED UNTIL 00:01 09 OCTOBER 2017

Children's Commissioner urges Welsh Government to rethink its childcare policy

Every three and four year old in Wales should have the same opportunities to receive high quality free child care, whatever their background, according to Professor Sally Holland, Children's Commissioner for Wales, who publishes her Annual Report today (09 October 2017).

The Welsh Government's new childcare offer of 30 hours free childcare every week for 48 weeks a year, extends only to working parents, but the Commissioner is concerned that children whose parents are not employed will fall even further behind their peers if they miss out on this provision. Children from the poorest families are already around 10 months behind those from better-off backgrounds in terms of development by the age of 3, according to the Millennium Cohort Study. The Commissioner believes that ensuring that all children receive the same offer of high quality childcare will reduce the school readiness gap and help all children in Wales fulfil their potential.

Here, Professor Holland explains more:

"I recognise that I'm making a bold plea here with Government, as I am acutely aware that we live in an age where every penny counts. But the Government needs to re-think its childcare policy and consider the serious long-term consequences this policy could have for the children who need the most support. There is clear evidence that if you invest in early years' education and, high quality childcare it makes a significant difference to the life chances of children from the poorest backgrounds and promotes social mobility. It also saves money in the long-term as those who receive early help go on to contribute more to society and need fewer services.

"Of course, I absolutely welcome the planned expansion of free childcare as it will assist considerably with childcare costs for working families, recognising that the majority of children living in poverty have working parents. However, I want to avoid a situation where children of non-working parents miss out and are denied their right to reach their full potential."

The Commissioner's annual report acknowledges strides forward in Welsh Government and local government policies and provision for young people leaving care, following her 'Hidden Ambitions' report published in March. Her annual report goes on to detail other key areas for improvement:

Home education

The Commissioner is repeating a call for a register for electively home educated children and for those children to be seen from time to time by a professional. This follows concerns that a small number of children may not be receiving the education and care at home to which they have a right.

Adoption

Care experienced young people have raised concerns with the Commissioner about not being able to maintain contact with their adopted siblings. Young people report feeling they are being punished when contact is not promoted. Professor Holland is calling on the Welsh Government to work with Wales' National Adoption Service to ensure that siblings' rights to contact are fully considered during adoption care planning.

Deaf children and family access to British Sign Language (BSL)

Following meetings with hearing parents who have expressed being unable to communicate fully with their Deaf children, and other Deaf children and their families who have expressed concerns at the lack of provision and support available to them, the Commissioner is calling for Welsh Government and local authorities to ensure appropriate support is put in place, including accessible and affordable BSL learning opportunities.

Highlights of the Commissioner's work this year

- Consulted with over 2000 children and nearly 300 professionals about their feelings and experiences of bullying in Wales.
- Launched 'Hidden Ambitions' report about society's commitments to Wales' care leavers. It led to a £1m investment from Welsh Government towards a care leavers' bursary.
- Created a resource to promote and celebrate intergenerational relationships with the Older People's Commissioner for Wales, which was viewed 9000 within first few months on Facebook.
- Engaged with 10,550 children and young people from across Wales.
- Published 'The Right Way: A Children's Rights Approach in Wales'. Organisations including the Wales Ambulance Trust and National Museum of Wales have committed to taking a child's rights approach to planning and service delivery.
- Assisted 528 cases via the Commissioner's independent investigations and advice services, tackling issues ranging from special educational needs to the closure of a sports centre.

ENDS

Professor Sally Holland is available for pre-records. She will also be available for live interviews or pre-records on 9 October at an event we're hosting for primary schools at the Wales Millennium Centre, Cardiff.

To arrange a face-to-face interview or telephone interview, please call Lewis Lloyd on 01792 765600 or Sara Jermin on 07794 123132. For an embargoed copy of the Annual Report, please email Lewis: lewis.lloyd@childcomwales.org.uk